Dŵr Cymru
Welsh Water

# Strategaeth Cyflenwad Dŵr Cwm Taf

**Llwyn-onn**

Ymgynghoriad Anstatudol

10 Gorffennaf – 9 Medi 2024

# Dweud eich dweud

## Fel rhan o'r ymgynghoriad anstatudol ar ein cynlluniau i fuddsoddi mewn gweithfeydd trin dŵr newydd a chadarn er mwyn diogelu'r cyflenwad dŵr i'n cwsmeriaid a'i ddiogelu at y dyfodol, hoffem wybod beth yw eich barn am ein cynigion.

Diben y ffurflen adborth hon yw casglu eich barn ar y cynnig i uwchraddio Gwaith Trin Dŵr presennol Llwyn-onn.

Bydd yr adborth a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i lunio a datblygu ein cynigion ymhellach, cyn i ni gynnal ymgynghoriad statudol, lle bydd y gymuned leol a rhanddeiliaid yn cael cyfle unwaith eto i adolygu a rhoi sylwadau ar ein cynlluniau.

Fel yr amlinellwyd yn y llyfryn ymgynghori, mae ein cynigion diwygiedig yn cynnig dull dau safle. Mae hwn yn golygu y bydd angen i ni ymgynghori ar bob cynnig ar wahân a chyflwyno ceisiadau cynllunio ar wahân ar gyfer pob cynnig. Mae angen i ni gyflawni'r ddau gynnig er mwyn bodloni ein dyletswydd gyfreithiol i uwchraddio'r prosesau trin dŵr.

Am y rheswm hwn, mae ffurflenni adborth ar wahân ar gyfer pob cynnig fel y gallwn sicrhau y bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn benodol i bob cynnig. Rydym yn croesawu ac yn annog adborth ar y ddau gynnig. I'r rhai sy'n dymuno gwneud sylwadau ar y ddau, bydd angen i chi lenwi'r ddwy ffurflen adborth. Rydym wedi defnyddio system codau lliw ar y ffurflenni er eglurder **Uwchraddio Gwaith Trin Dŵr Llwyn-onn.**




**Cynnig 1:**
Gwaith Trin Dŵr **Dan-y-Castell** a Gorsaf Bwmpio Pontsticill.

**Cynnig 2:**
Uwchraddio Gwaith Trin Dŵr **Llwyn-onn.**

Mae eich adborth yn bwysig i'n helpu i ddatblygu ein cynigion yn fanylach cyn ein hymgynghoriad statudol.

Rydym yn argymell eich bod yn darllen ein llyfryn ymgynghori cyn cwblhau'r ffurflen hon. Gellir lawrlwytho'r ffurflen hon yn **www.dwrcymru.com/cwmtaf**

Neu dewch i un o'n digwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd i siarad â'r tîm, a chasglwch daflen ymgynghori.

**Dydd Gwener 19 Gorffennaf** - 10:30am - 7:00pm
Clwb Golff Merthyr Tudful, CF48 2NT

**Dydd Mawrth 20 Awst** - 11:00am-6:00pm - Grŵp Sefydliad Gellideg, Y Ganolfan Llesiant, CF48 1ND.

**Dydd Mawrth 3 Medi**
2:00pm – 7:00pm - Clwb Pêl-droed Tref Merthyr, CF47 8RF

**Gofynnwch am ddogfen wedi'i hargraffu:** Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd a/neu os na allwch fynychu digwyddiad, gallwch ffonio ni ar **0800 052 0130** i ofyn am gopi o'n llyfryn ymgynghori wedi'i argraffu.

## RHANNWCH EICH BARN Â NI ynghylch uwchraddio Gwaith Trin Dŵr Llwyn-onn

**Gallwch roi adborth yn ystod yr ymgynghoriad anstatudol hwn yn y ffyrdd canlynol:**
Drwy bostio copi caled o'r ffurflen hon wedi'i gwblhau i: **Freepost Dŵr Cymru Welsh Water**
Drwy e-bostio copi i: **cwmtafproject@dwrcymru.com**
Mae croeso i chi ddefnyddio papur ychwanegol os nad yw'r blychau'n rhoi digon o le ar gyfer eich sylwadau.

**Neu gallwch gwblhau'r fersiwn ar-lein drwy ein hystafell ymgynghori rithwir:**
(English): **www.dwrcymru.com/llwynonnproposal** (Cymraeg): **www.dwrcymru.com/cynnigllwynonn**

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **23:59 ddydd Llun 9 Medi 2024.** Os na allwch roi adborth drwy'r sianeli uchod, ffoniwch ni ar **0800 052 0130** i drafod ffyrdd eraill o adael adborth.

## 1. AMDANOCH CHI

Atebwch y cwestiynau canlynol. Mae'r wybodaeth hon yn ddewisol, os byddai'n well gennych i'ch sylwadau fod yn ddienw, rhowch eich cod post fel y gallwn ddeall ble rydych chi'n byw mewn perthynas â'r cynllun.

**A.** Enw:

**B.** Sefydliad/grŵp (os ydych yn ymateb ar ran sefydliad):

**C.** Cod post (rhowch 4 digid cyntaf y cod post os gwelwch yn dda):

Gweler yr hysbysiad preifatrwydd ar ddiwedd y ffurflen hon.

## 2. GWAITH ARFAETHEDIG I UWCHRADDIO GWAITH TRIN DŴR LLWYN-ONN

**A.** A oes gennych unrhyw farn ar ein cynlluniau i ddatblygu'r safle yn Llwyn-onn?

**B.** A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch dyluniad amlinellol yr adeiladau, ac a oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gellid diwygio'r dyluniad i leihau effeithiau lleol?

## 3. SEILWAITH CYSYLLTIEDIG – PIBLINELLAU

**A.** A oes gennych unrhyw sylwadau ar lwybrau arfaethedig y biblinell fel y'u hamlinellir yn ein cynlluniau?

**B.** A oes unrhyw faterion amgylcheddol yr hoffech eu codi ynghylch y piblinellau cysylltiedig?
(Os yw eich adborth yn ymwneud â lleoliad penodol ar lwybrau arfaethedig y biblinell, cyfeiriwch at hyn yma).

## 4. SYLWADAU PELLACH

Unwaith y byddwn wedi adeiladu'r gwaith trin dŵr newydd, ni fydd arnom angen y rhan fwyaf o'r adeiladau presennol yng Nghantref mwyach. Mae rhai adeiladau a strwythurau yn rhestredig ac felly byddant yn cael eu cadw. Hoffem chwilio am ddefnydd ar gyfer y rhain yn y dyfodol lle bo modd.

**A.** Sut hoffech chi weld yr adeiladau hyn yn cael eu datblygu er budd y gymuned leol?

I gyflwyno eich barn ar ein cynlluniau ar gyfer dyfodol yr adeiladau ym Mhontsticill, cwblhewch y ffurflen adborth ar gyfer Gwaith Trin Dŵr arfaethedig Dan-y-Castell.

**B.** Pe bai ein cynigion yn cael eu cymeradwyo, a fyddai gennych unrhyw bryderon i'r gymuned ynghylch trafnidiaeth neu wasanaethau lleol eraill yn ystod y gwaith adeiladu, yr hoffech eu codi?

**C.** A oes unrhyw faterion amgylcheddol yr hoffech eu codi ynghylch y datblygiad arfaethedig? Gallai hyn gynnwys ffyrdd o ddatblygu ein cynlluniau ymhellach i greu cyfleoedd i wella'r amgylchedd lleol.

**D.** **Fel cwmni nid-er-elw, mae ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn, ac rydym bob amser yn ceisio rhoi rhywbeth yn ôl i'r cymunedau rydym yn buddsoddi ynddynt. Os oes gennych syniadau neu awgrymiadau ar gyfer prosiectau cymunedol yr hoffech ein gweld yn buddsoddi ynddynt yn y maes hwn, gadewch eich meddyliau/syniadau isod.**

Rydym yn awyddus i weithio ar y cyd â'r gymuned leol i ddatblygu ein cynlluniau i greu lleoedd cynaliadwy a chefnogi gwelliannau i'r amgylchedd lleol a bioamrywiaeth gan gynnwys mentrau sy'n hybu amcanion iechyd a llesiant.

Os ydych yn grŵp cymunedol lleol neu'n sefydliad a hoffai ymgysylltu â ni, wrth i ni ddatblygu cynlluniau, gadewch eich manylion cyswllt isod neu cysylltwch â ni drwy'r e-bost: **cwmtafproject@dwrcymru.com**

**E.** **A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y cynigion nad yw ffurflen yr ymgynghoriad eisoes wedi'i gynnwys?**

## 5. EIN HYMGYNGHORIAD

**A. Rhowch wybod i ni sut y clywsoch am yr ymgynghoriad hwn drwy dicio un neu fwy o'r blychau canlynol:**

- ☐ Wedi cael llythyr gan Dŵr Cymru
- ☐ Wedi cael cerdyn post hysbysu gan Dŵr Cymru
- ☐ Wedi cael gwybod gan gynrychiolydd etholedig lleol
- ☐ Wedi gweld poster gwybodaeth mewn hyb/ardal gymunedol
- ☐ Wedi gweld hysbyseb mewn papur newydd lleol
- ☐ Wedi gweld sylw yn y cyfryngau cymdeithasol amdano.
- ☐ Wedi gweld/clywed sylw yn y cyfryngau lleol a/neu genedlaethol amdano
- ☐ Ar lafar gwlad
- ☐ Wedi cael gwybod gan sefydliad lleol (nodwch) ______
- ☐ Arall (nodwch) ______

**B. A wnaethoch fynychu un o'n digwyddiadau personol neu weld yr ystafell ymgynghori rithwir ar-lein?**

- ☐ Do, digwyddiad personol
- ☐ Do, ar-lein
- ☐ Do, y ddau
- ☐ Naddo

**C. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am ein proses ymgynghori neu unrhyw beth y gallwn ei wella am ein hymgynghoriad?**

______

## DIOLCH AM RANNU EICH ADBORTH Â NI.

## 6. MWY AMDANOCH CHI (DEWISOL)

**A. A ydych yn berchen ar dir neu'n dal unrhyw fuddiannau neu hawliau, megis hawliau tramwy preifat neu hawliau chwaraeon, a gwmpesir gan ein cynnig?** (Os oes, rhowch fanylion)

☐ Ydw ☐ Nac ydw

**B. Beth yw eich prif fuddiant yn y cynllun hwn?** (Ticiwch gynifer ag sy'n berthnasol)

☐ Preswylydd lleol ☐ Busnes lleol ☐ Aelod o grŵp â buddiant lleol (nodwch)

☐ Ymwelydd/Twrist ☐ Gwleidydd etholedig ☐ Tirfeddiannwr

☐ Arall (nodwch)

## 7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Diffinnir yr atebion a roddwch i'r cwestiwn hwn fel 'data categori arbennig'. Os byddwch yn cytuno i ddarparu gwybodaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. I dynnu eich manylion yn ôl, cysylltwch â ni drwy e-bost yn **cwmtafproject@dwrcymru.com**

**A. Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson ag anabledd?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**B. Beth yw eich oedran?**

☐ O dan 16 oed ☐ 16-24 ☐ 35-44 ☐ 45-54 ☐ 55-64 ☐ 65+ ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

**C. Ydych chi'n siarad Cymraeg?**

☐ Ydw ☐ Ydw, yn dysgu ☐ Nac ydw ☐ Gwell gennyf beidio â dweud

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Gwyddom ba mor bwysig yw hi i chi ein bod yn gofalu am eich Data Personol.

Os rhowch eich enw a'ch cyfeiriad, efallai y bydd Dŵr Cymru Welsh Water yn cysylltu â chi i drafod a/neu ymateb i faterion a godwyd yn eich adborth. Bydd gweddill y wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio i lywio ein hymagwedd at y cynigion, efallai y byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r adborth, ond ni fydd unrhyw wybodaeth am unigolyn yn cael ei datgelu.

Ni fydd y wybodaeth a ddarperir yn gysylltiedig ag unrhyw gofnod cwsmer arall a chaiff ei defnyddio at y dibenion a nodir uchod yn unig. Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael ar ein gwefan ac mae'n esbonio sut rydym yn casglu, defnyddio, yn rhannu ac yn diogelu eich Gwybodaeth Bersonol mewn ffordd sy'n parchu eich hawliau Diogelu Data ac yn cydymffurfio â chyfreithiau Diogelu Data'r DU (gan gynnwys Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018).

Os hoffech gael copi o'n hysbysiad preifatrwydd drwy'r post, ffoniwch ni ar **0800 052 0145**.

Dŵr Cymru
Welsh Water

Strategaeth
Cyflenwad Dŵr
Cwm Taf

Paratoi ein cyflenwad dŵr ar gyfer y dyfodol